



Y GYMDEITHAS NOFIO DU (BSA)

YMATEB I #OURSWIMSTORY

Mae'r BSA yn sefydliad dielw, a sefydlwyd i arallgyfeirio'r byd gweithgareddau dyfrol trwy **ymgyngori, eirioli, ymchwil, addysg a chymorth** i sicrhau bod pobl o dras Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd yn cael mynediad teg a diogel at addysg hanfodol ynghylch diogelwch dŵr, atal boddi a holl fanteision cymryd rhan mewn gweithgareddau dyfrol.

Mae'r BSA yn cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, cyrff llywodraethu cenedlaethol, awdurdodau achub bywyd, elusennau, cynghorau chwaraeon, gweithredwyr hamdden, yn ogystal â sefydliadau ymchwil ac addysgol, er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant mewn gweithgareddau dyfrol ym mhob cymuned.

Y BSA yw corff comisiynu'r prosiect ymchwil arloesol #OurSwimStory, a ymchwiliodd i'r agweddau tuag at, a phrofiadau o, diogelwch dŵr a gweithgareddau dyfrol ymhlith cymunedau ethnig amrywiol yn y DU.

+ + 20
+ + 23
+ +

COMISIYNU #OURSWIMSTORY

Ers sefydlu'r BSA yn 2020, rydym wedi bod yn ymdrechu i sicrhau bod cymunedau ethnig amrywiol yn y DU yn cael mynediad cyfartal i addysg diogelwch dŵr hanfodol, atal boddi, a manteision gweithgareddau dŵr.

Mae oedolion a phlant o dras Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd mewn nofio a dyfrol, ac maent yn llai tebygol o fod â sgiliau a allai achub bywyd.

Rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2022, **dim ond 3.5% o oedolion Du a 4.2% o oedolion Asiaidd (ac eithrio Tsieineaidd) oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau nofio yn rheolaidd**, o gymharu ag 8.9% o oedolion Gwyn Prydeinig [1,2]

Ym mlwyddyn academiaidd 2021-2022, **dim ond 14.2% o blant a phobl ifanc Ddu ac 16.8% o blant a phobl ifanc Asiaidd oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau nofio o leiaf unwaith yr wythnos**, o gymharu â 26.1% o blant Gwyn Prydeinig [3,4]

Fe wnaeth Ymchwil Diogelwch Dŵr y BSA (Gorffennaf 2022) ddarparu tystiolaeth bod plant o gefndiroedd ethnig amrywiol mewn mwy o berygl mewn dŵr agored, oherwydd **1) eu lefel is o wybodaeth diogelwch dŵr a 2) lefel is o sgiliau dyfrol honedig.**

Dim ond 28% o blant o gymunedau ethnig amrywiol a ymatebodd yn gywir i bedwar senario diogelwch dŵr allweddol, o gymharu â 43% o blant Gwyn

Dim ond 35% o blant o gymunedau ethnig amrywiol a ddywedodd y gallent stopio mewn dŵr dwfn, gweiddi am help a nofio eto, o gymharu â 57% o blant Gwyn



Fe wnaeth y BSA gomisiynu #OurSwimStory mewn ymateb i'r diffyg cynrychiolaeth o bobl o dras Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd mewn gweithgareddau nofio a dyfrol, a'u diffyg gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch dŵr, sy'n rhoi'r cymunedau hyn mewn perygl mawr o foddi.

Mae #OurSwimStory yn brosiect ymchwil nodedig, sy'n archwilio profiadau byw o ddiogelwch dŵr a gweithgareddau dyfrol dros 1,400 o oedolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a chefnidiroedd ethnig amrywiol eraill. Fe wnaeth yr ymchwil nodi rhwystrau sylweddol i ymgysylltiad dyfrol diogel a chyflwynodd argymhellion gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr a chyfranogiad dyfrol.

[1] Arolwg Bywydau Gweithgar Sport England; data ar gael yn <https://activelives.sportengland.org/Home/AdultData>


[2] Roedd y gwahaniaeth hwn yn amlwg cyn y pandemig Covid-19; nid oedd 95% o oedolion Du a 93% o oedolion Asiaidd (ac eithrio Tsieineaidd) yn nofio'n rheolaidd, o gymharu ag 89% o oedolion Gwyn Prydeinig, yn seiliedig ar ddata arolwg Bywydau Gweithgar 2016-2018.

[3] Arolwg Bywydau Gweithgar Sport England; data ar gael yn <https://activelives.sportengland.org/Home/ActivityData>

[4] Cyn-Covid, nid oedd 80% o blant Du a 78% o blant Asiaidd yn nofio'n rheolaidd, o gymharu â 71% o blant Gwyn Prydeinig, yn seiliedig ar ddata arolwg Bywydau Gweithgar 2017-2019.

TAITH GYMUNEDOL™ Y BSA

Fe wnaeth y BSA ddatblygu'r Daith Gymunedol™, yn dilyn ymgysylltu â phartneriaid sector a chymunedau, fel ffordd o gynrychioli'n weledol safbwyntiau posibl cymunedau (ar linell rif o -3 i 2) o ran eu hymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr, eu gwybodaeth a'u cyfranogiad dyfrol. Mae'r safbwyntiau a ddarlunnir yn y Daith Gymunedol™ yn cyd-fynd â'r profiadau a rennir gan lawer o gyfranogwyr #OurSwimStory.



Mae **Pwynt 1** ar y Daith Gymunedol™ yn cynrychioli ymdrechion presennol y sector dyfrol, sy'n darparu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni Dysgu Nofio 'traddodiadol' ac sydd â'r adnoddau i'w cefnogi.

Pan ystyrir cymunedau ethnig amrywiol, mae llawer ohonynt ar **bwynt -3**. Y cymunedau hyn yw'r rhai sydd wedi'u difreinio fwyaf gan y sector dyfrol. Yn nodedig, nid yw cymunedau ar bwynt -3 yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wybod i gadw eu hunain yn ddiogel pan ydynt mewn, ar ac o amgylch dŵr. Mae angen goresgyn rhwystrau lluosog, cymhleth er mwyn galluogi cymunedau sydd wedi'u difreinio i gymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgareddau dyfrol.

“ Dw i ond yn aros ac yn gofalu am y bagiau ar y traeth. Dydw i ddim yn mynd yn y dŵr. Dydw i ddim yn hyderus wrth fynd yn y dŵr. Does dim digon o wybodaeth am ddiogelwch dŵr mewn gwirionedd. Fyddwn i ddim yn gwybod sut i achub fy hun.

(Du Prydeinig, Gogledd-orllewin Lloegr)

Dyweddodd **48%** o ymatebwyr yr arolwg #OurSwimStory nad oeddent yn gwybod sut i aros yn ddiogel yn y dŵr.

Dyweddodd **44%** o ymatebwyr yr arolwg #OurSwimStory eu bod ag ofn dŵr.

Dyweddodd **34%** o ymatebwyr yr arolwg #OurSwimStory eu bod nhw (neu rywun yn eu teulu) wedi profi digwyddiad dyfrol trawmatig.

Mae **pwynt -2** yn cynrychioli cael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch dŵr, trwy addysg wedi'i thargedu ac allgymorth, sef y cam cyntaf ar y daith i ymgysylltu dyfrol diogel. Unwaith y bydd y sylfaen hanfodol hon wedi'i sefydlu, mae angen cefnogi unigolion i ddatblygu hyder yn y dŵr (**pwynt -1**) a'u gwneud yn ymwybodol o gyfleoedd cynhwysol a hygyrch o fewn y sector dyfrol (**pwynt 0**).

Dim ond pan ydynt yn cyrraedd **pwynt 1** y caiff cymunedau eu harfogi i gymryd rhan mewn rhaglenni Dysgu Nofio, sy'n dangos yn glir yr angen i'r BSA bontio'r bwlch rhwng y sector dyfrol a chymunedau Affricanaidd, Caribiaidd ac Asiaidd. Yn nodedig, mae gallu nofio'n ddiogel yn gallu galluogi unigolion i ddilyn llwybrau dyfrol eraill (**pwynt 2**), a all greu buddion sylweddol a gwerth cymdeithasol (er enghraifft, gwell cyfleoedd iechyd a chyflogaeth).

“ Dywedwyd wrtha i wastad “Dydy pobl ddu ddim yn gallu nofio” neu “Dydy pobl ddu ddim yn nofio rydyn ni'n rhedeg”. Dw i'n credu ei fod yn rhywbeth i bob grŵp ethnig ei brofi. Mae'n sgil bywyd anhygoel a bod yn y dŵr... Rydych chi'n teimlo'n rhydd.

(Du Caribiaidd, Benyw, Swydd Efrog)

Roedd **80%** o ymatebwyr yr arolwg #OurSwimStory yn teimlo bod gweithgareddau dyfrol yn ddewis ymarferol o ran chwaraeon neu ffitrwydd iddyn nhw eu hunain neu i eraill o'u cymuned ethnig neu ddiwylliannol, ond eto...

Roedd **84%** o ymatebwyr #OurSwimStory yn teimlo bod gweithgareddau dyfrol yn anghyffredin yn eu cymuned.

Trwy ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi'u difreinio fwyaf (h.y., y rhai ar bwynt -3 ar y Daith Gymunedol™), mae'r BSA yn cynnig persbectif unigryw, ac mae gan hyn y potensial i fod o fudd i grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn wir, mae'r BSA wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn (ag ystod eang o hunaniaethau a phrofiadau croestoriadol) yn cael mynediad cyfartal, yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, a'u bod yn cael profiad diogel ac o safon yn, ar ac o amgylch dŵr.

O ystyried y rhwystrau croestoriadol a chydfodoli niferus a nodwyd yn #OurSwimStory, **mae angen ymagwedd gyfannol ac aml-sector i roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gymunedau i'w cadw'n ddiogel a'u cefnogi ar eu taith tuag at gyfranogiad dyfrol.**



BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD MEWN YMATEB I #OURSWIMSTORY?

Bydd y BSA yn parhau i weithredu fel pont rhwng y sector dyfrol a chymunedau sydd wedi'u difreinio drwy:

- Eirioli dros fabwysiadu rhaglen addysg diogelwch dŵr gynhwysfawr, genedlaethol, a defnyddio ein Mynegai **Diogelwch Dŵr Perchnogol™** fel rhan o fframwaith gwerthuso
- Cyflwyno rhaglen arobryn yr **Awr Las BSA / Together We Can™**, sy'n darparu mynediad at ddŵr hanfodol. addysg diogelwch, atal achosion o foddï a manteision gweithgareddau dŵr (e.e., drwy gefnogi cyfranogwyr i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, ac wrth wneud hynny amrywio'r gweithlu dyfrol a mynd i'r afael â phrinder gweithwyr)
- Ymhelaethu ar brofiadau cymunedau sydd wedi'u difreinio a chydweithio â phartneriaid, wrth i ni ymdrechu i sicrhau mynediad teg yng nghyd-destun heriau sector ehangach

Dylai'r llywodraeth a'r sector dyfrol ddechrau drwy nodi a chydabod lle mae cymunedau drwy:

- Sicrhau bod yr holl bolisiâu a mentrau sydd â'r nod o hyrwyddo diwylliant sy'n weithgar yn y dŵr yn cael eu llywio gan y rhwystrau a brofir gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn ymateb iddynt (h.y., y rhai ar bwynt -3 ar y Daith Gymunedol™)
- Deddfu a gweithredu'r Bil Diogelwch Dŵr (Cwricwlwm) i wella mynediad ar fyrder at addysg diogelwch dŵr hanfodol i **bob** plentyn a pherson ifanc, gan gydnabod bod llawer o blant o Dreftadaeth Ddu ac Asiaidd gallai cwricwlwm yr ysgol ddarparu eu hunig gyfle i gaffael y wybodaeth hollbwysig hon
- Ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod cymunedau sydd wedi'u difreinio yn cael mynediad cyfartal at wybodaeth a sgiliau achub bywyd drwy gydweithio â'r BSA a mabwysiadu dull aml-sector

Beth fyddwch chi / eich sefydliad yn ei wneud mewn ymateb i #OurSwimStori fel rhan o ymrwymiad i newid cynaliadwy?

Gyda'n gilydd, gadewch i ni gychwyn ar y daith hon tuag at fynediad teg at addysg diogelwch dyfrol a'r manteision o ymgysylltu â gweithgareddau dyfrol i bawb, gan wybod y bydd ein hymdrechion heddiw yn cael effaith ddofn a pharhaol ar genedlaethau i ddod.

Mae'r BSA yn datblygu'r **Mynegai Diogelwch Dŵr™** fel offeryn i fesur risg person o fynd i berygl mewn dŵr agored, yn seiliedig ar eu **cymhwysedd nofio, hyder a gwybodaeth diogelwch dŵr**. Mae'r tair agwedd hyn yn hanfodol i sicrhau diogelwch mewn, ar ac o amgylch dŵr.

Mae'r **Awr Las** yn rhoi cyflwyniad i'r wybodaeth hanfodol am ddiogelwch dŵr sydd ei hangen i atal ymddygiadau sy'n bygwth bywyd ac yn cynyddu'r siawns o oroesi rhag boddi.



DIOLCHIADAU

Rydym yn diolch i dîm AKD Solutions am gynnal ymchwil #OurSwimStory, gan gynnwys Reyss Wheeler (prif ymchwilydd), Darnelle Morgan, Nandi Kegode, Mercy Brown, a Samina Tarafder (ymchwilwyr), yn ogystal â Jenny Gordon a Michelle Peter (cynghorwyr). Rydym yn diolch hefyd i'n tîm, gan gynnwys Damian Stevenson a Georgie Milner Day (tîm ymchwil), yn ogystal â Rhiann O'Connor (marchnata).


Rydym hefyd am gydnabod Sefydliad Marathon Llundain, Chwaraeon Cymru, yr RNLI a PwC am gefnogi'r ymchwil hwn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r holl gyfranogwyr ymchwil na fyddai #OurSwimStory wedi bod yn bosibl hebddynt.

CYSYLLTU

 contactus@thebsa.co.uk

 www.thebsa.co.uk

 [BlackSwimAssoc](https://twitter.com/BlackSwimAssoc)

 [blackswimmingassociation](https://www.instagram.com/blackswimmingassociation)

 [The Black Swimming Association](https://www.facebook.com/TheBlackSwimmingAssociation)



© Y BSA 2023

